# IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO

## (Multi Location Hybrid Micosoft Teams/Council Chamber)

**Members Present:** **Dydd Llun, 30 Ionawr 2023**

**Cadeirydd:** **Caderidd J.Henton**

**Cynghorwyr**: S.Paddison a/ac A.Dacey

**Swyddogion yn bresebbol:** Neil Chapple
Peter Malough
Gavin White
Sarah McCluskie
Tammie Davies

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Cytunodd y Cadeirydd, a hysbysodd bawb, y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio er mwyn i'r Ymgeisydd a Deiliad y Drwydded drafod rhagor o fanylion am yr amodau arfaethedig.

3. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

4. **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED SAFLE - THE OTHER PLACE PONTARDAWE.**

Gofynnwyd i aelodau ystyried cais gan Iechyd yr Amgylchedd i adolygu trwydded mangre ar gyfer The Other Place (Live Lounge)

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | The Other Place (Live Lounge) |
| Cyfeiriad y fangre | 9 Heol Ynysderw, Pontardawe, Abertawe SA8 4EG |
| Enw'r ymgeisydd | Rachel Matthews - Swyddog Iechyd yr |

| | |
|---|---|
| | Amgylchedd |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG |
| Enw deiliad trwydded y Fangre | HD Pub Investments Ltd |
| Goruchwyliwr Mangre Dynodedig | Mr Hans Andrei Dionisio Erive |

***Penderfynodd*** yr Is-bwyllgor wrth benderfynu ar yr adolygiad, y dylid ***addasu*** amodau'r Drwydded Mangre, yn unol ag a52(4)(a) o Ddeddf Trwyddedu 2003, gydag amodau ychwanegol i gefnogi'r Amcanion Trwyddedu.

<u>I'w ddileu (o Atodiad 2)</u>
Dileu'r amodau canlynol o'r Drwydded Mangre, sef:

a. Amod 2 - Sicrhau y cedwir pob ffenestr a drws ar gau wrth bod cerddoriaeth wedi'i mwyhau yn cael ei chwarae; ac
b. Amod 4 - Darparu dyfais cyfyngu sain sy'n weithredol pryd bynnag y bydd cerddoriaeth wedi'i mwyhau yn cael ei chwarae.

<u>I'w hatodi (i Atodiad 3)</u>
Ychwanegu'r amodau canlynol i'r Drwydded Mangre, sef:

a. Drwy rinwedd a177A o Ddeddf Trwyddedu 2003, bydd amodau'r Drwydded Mangre sy'n ymwneud ag adloniant wedi'i reoleiddio mewn grym rhwng 08:00 a 23:00.

b. Rhaid cadw'r holl ffenestri a'r drysau allanol ar gau ar unrhyw adeg pan fydd adloniant wedi'i reoleiddio yn cael ei gynnal ac eithrio i ganiatáu i bobl ddod i mewn neu adael yn syth.

c. Ni chynhelir adloniant wedi'i reoleiddio, ar ffurf cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio (***"Adloniant"***), yn y <u>fangre</u> hyd nes y bydd Deiliad y Drwydded Mangre a/neu berchennog y fangre yn comisiynu ymgynghorydd acwstig annibynnol i gynnal Asesiad Effaith Sŵn a bod y mesurau rheoli a argymhellir yn yr asesiad yn cael eu rhoi ar waith.

Darperir copi o'r Asesiad Effaith Sŵn, ynghyd â'r dystiolaeth ategol y cydymffurfiwyd â'r gofynion, i'r awdurdod lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig cyn i'r adloniant ddechrau.

I gydymffurfio â'r uchod, rhaid bodloni'r meini prawf isod:

i. Rhaid i ymgynghorydd acwstig, a fydd yn aelod o'r *Association of Noise Consultants* ac yn aelod o'r *Institute of Acoustics*, gynnal yr Asesiad Effaith Sŵn.
ii. Bydd methodoleg yr Asesiad Effaith Sŵn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol y DU, a'r Sefydliad Safonau Prydeinig, ac yn cael ei chytuno â'r awdurdod lleol cyn i'r asesiad ddechrau.
iii. Cyn rhoi'r mesurau rheoli ar waith, bydd yr awdurdod lleol yn cael cyfle i adolygu a rhoi sylwadau ar yr Asesiad Effaith Sŵn, a'i argymhellion.

Ni chaniateir unrhyw adloniant, p'un ai ei fod wedi'i recordio neu ei fod dan nawdd dadreoleiddio Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012, ar ffurf cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio ym mar blaen y fangre hyd nes bod Deiliad y Drwydded Mangre a/neu berchennog y fangre yn comisiynu ymgynghorydd acwstig annibynnol i gynnal Asesiad Effaith Sŵn a bod y mesurau rheoli a argymhellir yn yr asesiad yn cael eu rhoi ar waith.

I gydymffurfio â'r uchod, rhaid bodloni'r meini prawf isod:

i. Rhaid i ymgynghorydd acwstig, a fydd yn aelod o'r *Association of Noise Consultants* ac yn aelod o'r *Institute of Acoustics*, gynnal yr Asesiad Effaith Sŵn.
ii. Bydd methodoleg yr Asesiad Effaith Sŵn yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol y DU, a'r Sefydliad Safonau Prydeinig, ac yn cael ei chytuno â'r awdurdod lleol cyn i'r asesiad ddechrau.
iii. Cyn rhoi'r mesurau rheoli ar waith, bydd yr awdurdod lleol yn cael cyfle i adolygu a rhoi sylwadau ar yr Asesiad Effaith Sŵn, a'i argymhellion.

Pe bai newid mawr yn yr amgylchedd sŵn lleol, bydd ymgynghorydd acwstig Deiliad y Drwydded Mangre yn cynnal Asesiad Effaith Sŵn amgylchynol pellach. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid oes disgwyl i lefelau sŵn amgylchynol newid blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Caniateir adloniant yn unol â'r Asesiad Effaith Sŵn. Mae'r holl adloniant yn y bar cefn yn amodol ar y Cynllun Rheoli Sŵn y cytunwyd arno, ac yn cael ei ddarparu drwy'r cyfyngydd sŵn a osodir ar lefel y cytunwyd arni gydag Is-adran Iechyd yr Amgylchedd.

Rhaid i adloniant, yn y bar cefn, gael ei gynnal rhwng yr oriau 19:00 a 22:30, a chaniateir un digwyddiad yn unig fesul mis calendr. Ni chynhelir unrhyw ddigwyddiad ar benwythnosau olynol ac eithrio mis Rhagfyr, lle caniateir dau ddigwyddiad, ond nid ar ddiwrnodau olynol. *Sylwer: yn unol â Rheoliad 33 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005, mae'r cyngor wedi cywiro gwall sy'n deillio o'r Hysbysiad Penderfyniad (3 Chwefror 2023) o gamgymeriad neu hepgoriad damweiniol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ac i'w wneud yn glir, mae'r geiriau, "yn y bar cefn", wedi'u cynnwys fel y cytunwyd ar 30 Ionawr 2023.*

Bydd Cynllun Rheoli Sŵn – un yr un ar gyfer y bar blaen a chefn – yn cael ei gyflwyno i'w archwilio a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Swyddogion yr awdurdod lleol. Rhaid dilyn y Cynllun Rheoli Sŵn a gymeradwywyd a chydymffurfio ag ef yn llawn. Bydd y mesurau rheoli a nodir yn y Cynllun Rheoli Sŵn yn cael eu rhoi ar waith bob amser pan fydd y fangre'n cynnal adloniant. Bydd y Cynllun Rheoli Sŵn yn:

i. Diffinio'n glir y mesurau i'w cymryd i gyflawni (e.e. ymlediad, cyfrifo, mapio sain neu debyg), a sicrhau cydymffurfiaeth (e.e. monitro lleoliadau/sylwadau) â'r Lefel Sŵn Cerddoriaeth y cytunwyd arni o fewn y fangre.
ii. Darparu manylion ynghylch sut mae Deiliad y Drwydded Mangre'n bwriadu sicrhau y cydymffurfir ag amodau sŵn ar draws y fangre.
iii. Diffinio'n glir y trefniadau monitro sŵn a'r lleoliadau i'w monitro, er mwyn penderfynu ar gydymffurfiaeth â'r Amcanion Trwyddedu.

iv. Ystyried gweithgareddau sensitif eraill y gallai'r digwyddiad[au] effeithio arnynt.
v. Diffinio'r trefniadau'n glir i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Amcanion Trwyddedu drwy gydol y digwyddiad(au], a rhaid i'r rheolwyr trefniadol sicrhau hynny hefyd.
vi. Manylu'r camau unioni lle/os ystyrir bod cerddoriaeth wedi dianc yn amhriodol.
vii. Diffinio'n glir y trefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion gan y gymuned am sŵn a phroblemau eraill sy’n gysylltiedig â’r gwaith paratoi, a chlirio isadeiledd y fangre ynghyd â’r digwyddiad ei hun.

Cedwir cofnod ysgrifenedig o'r holl gwynion, yn cynnwys: y dyddiad a'r amser y derbyniwyd y gŵyn; manylion cyswllt yr achwynydd; manylion y person sy'n derbyn y gŵyn; manylion y gŵyn; manylion yr ymchwiliad a gynhaliwyd; a'r dyddiad a'r amser y darparwyd unrhyw adborth i'r achwynydd.

Ni fydd unrhyw sain allanol wedi'i mwyhau mewn ardaloedd allanol o’r fangre, gan gynnwys yr ardd gwrw a’r maes parcio, ac eithrio un penwythnos digwyddiad y flwyddyn (y *"**Digwyddiad**"*), y disgwylir iddo fod yn benwythnos gŵyl Pontardawe:

i. Ar ddydd Gwener: 18:00 – 23:00
ii. Ar ddydd Sadwrn: 13:00 – 23:00
iii. Ar ddydd Sul: 13:00 – 23:00

Neu awr olaf yr ŵyl, p'un bynnag fydd gynharaf.

Ni chaniateir i siaradwyr fod wrth fynedfa nac allanfa'r fangre, na thu allan i'r adeilad, ac eithrio ar gyfer y digwyddiad.

Rhoddir rhybudd o wyth niwrnod ar hugain (28) o’r digwyddiad a'r gweithgareddau i Is-adran Iechyd yr Amgylchedd, a Gwasanaethau Rheoleiddiol Cyfreithiol, yr awdurdod lleol.

Rhoddir rhybudd o wyth niwrnod ar hugain (28) o’r digwyddiad a'r gweithgareddau i’r holl breswylwyr o fewn cyffiniau'r fangre. Mae hyn yn cynnwys: pob eiddo ar Francis Steet; a phob eiddo hyd at, ac yn cynnwys, 36 Ynysderw Road.

Bydd Deiliad Trwydded y Fangre, neu berson enwebedig, yn cynnal arsylwadau sŵn rhagweithiol y tu allan i'r fangre o leiaf unwaith yr awr wrth fod adloniant yn cael ei ddarparu a bydd yn cymryd unrhyw gamau adferol angenrheidiol.

Cedwir cofnod ysgrifenedig o arsylwadau sŵn rhagweithiol y tu allan i'r fangre o'r amseroedd, y dyddiadau, unrhyw broblemau a ddarganfuwyd a, lle y bo'n berthnasol, pa gamau unioni a gymerwyd. Cedwir y cofnodion hyn am o leiaf dri deg un (31) diwrnod. Rhaid sicrhau bod y cofnodion ar gael, ar gais, i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig yr awdurdod lleol bob amser pan fydd y fangre ar agor.

Bydd Deiliad y Drwydded Mangre yn sicrhau bod unrhyw berfformiwr (adloniant) yn cael gwybod am yr amodau sŵn sydd wedi'u cynnwys yn y Drwydded Mangre. Bydd gofyn i'r perfformiwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddo gan Ddeiliad y Drwydded Mangre a/neu'r ymgynghorydd acwstig.

Bydd polisi gwasgaru yn cael ei lunio gan Ddeiliad y Drwydded Mangre a'i gyflwyno i'r Gwasanaeth Rheoleiddio Cyfreithiol i'w gymeradwyo. Bydd y polisi yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i) mesurau i: reoli sŵn; ac i reoli ymadawiad cwsmeriaid. Unwaith y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan y Gwasanaeth Rheoleiddio Cyfreithiol, bydd Deiliad y Drwydded Mangre yn rhoi'r polisi ar waith.

5. **EITEMAU ATODOL - ATODIAD 1, 2 A 3**

Adolygwyd Atodiadau 1, 2 a 3 fel rhan o'r pecyn atodol a ddosbarthwyd.

6. **ATEGU AMODAU SŴN**

Proseswyd a chyhoeddwyd Atodiad 4 o'r eitemau atodol yn ystod y cyfarfod.

**CADEIRYDD**